**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JMEWL/0568/22

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

25 Mai 2022

Annwyl Delyth,

Ysgrifennaf atoch i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i osod Rheoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 gerbron y Senedd. Bydd y Rheoliadau hyn yn gwneud Safonau yn benodol gymwys i 9 corff rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithredu ledled y DU:

- Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
- Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Cyngor Optegol Cyffredinol
- Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Reoliadau drafft yn ystod tymor y pumed Senedd rhwng Mawrth a Hydref 2020. Fel rhan o'r broses ymgynghori, rhoddodd swyddogion friff technegol i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r pumed Senedd ar 17 Medi 2020. Yn ystod y sesiwn honno, eglurodd Helen Mary Jones AS, Cadeirydd dros dro'r Pwyllgor ar y pryd, ei barn y dylai cofrestryddion allu trafod cwyn a wneir amdanynt yn Gymraeg gyda chorff rheoleiddio, a hynny mewn cyd-destun ehangach na dim ond mewn gwrandawiad addasrwydd i ymarfer. Ysgrifennodd Eluned Morgan AS at y Pwyllgor ym mis Ionawr 2021 i'w hysbysu bod newid wedi'i wneud i'r Rheoliadau i adlewyrchu'r sylw a gafwyd yn y sesiwn friffio dechnegol, a chadarnhaodd ei phenderfyniad i beidio â mynd ymlaen i wneud y Rheoliadau yn ystod tymor y Senedd honno.

Heddiw rwyf wedi cyhoeddi Adroddiad yn crynhoi'r ymgynghoriad. Mae'r Adroddiad yn nodi materion a godwyd yn yr ymgynghoriad yn 2020, ac yn amlinellu'n glir ymateb y Llywodraeth a'r newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau yn dilyn yr ymgynghoriad. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, bwriadaf osod y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 14 Mehefin 2022.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn imi drefnu dadl yn y Cyfarfod Llawn i drafod y Rheoliadau drafft, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried a yw'r Pwyllgor yn dymuno craffu ar y Rheoliadau. Os yw'r Pwyllgor yn bwriadu gwneud hynny, byddaf wrth gwrs yn caniatáu amser i'r Pwyllgor ymgymryd â'r gwaith craffu hwnnw a digon o amser i gyflwyno adroddiad. Er mwyn helpu i gynllunio, byddai'n ddefnyddiol pe gallech amlinellu sut y rhagwelwch y bydd y broses graffu'n cael ei chynnal, ac ystyried pryd gall y gwaith ddigwydd o fewn blaenraglen waith y Pwyllgor. Byddwn wedyn yn trefnu dyddiad ar gyfer dadl mewn cyfarfod llawn i gyd-fynd ag amserlen y Pwyllgor.  Fodd bynnag, os yw'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel yr ymgynghori, sydd eisoes wedi'i gynnal ar y Rheoliadau hyn, yna byddaf yn mynd ymlaen i drefnu dyddiad Cyfarfod Llawn yn gynharach fel y gellir gwneud y Rheoliadau'n gynt, gan osgoi rhagor o oedi.

Fel y gwyddoch, mae’r pandemig wedi effeithio’n ddirfawr ar ein gallu fel Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth ac is-ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd polisi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn sgil y Cytundeb Cydweithio, rydym yn awyddus i fwrw ymlaen gyda’r rhaglen o gyflwyno rheoliadau Safonau’r Gymraeg mewn nifer o feysydd. Fel y nodir uchod, mae’r rheoliadau penodol hyn eisoes wedi’i ddiwygio yn sgil sylwadau Cadeirydd blaenorol y pwyllgor, ac wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda’r Pwyllgor wrth i ni symud ymlaen gyda’r rhaglen o gyflwyno rheoliadau Safonau’r Gymraeg yn y dyfodol.  Wrth osod rheoliadau pellach yn y dyfodol byddwn eto yn cynnig cyfle i’r Pwyllgor priodol graffu ar y Rheoliadau hynny.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language